Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Tanygrisiau

**Blaenau Ffestiniog**
**Gwynedd**
**LL41 3SU**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Tanygrisiau

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Tanygrisiau |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 46 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 37 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 5 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 24.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 21.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 78.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2009 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | Dim yn berthnasol |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 22/04/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Yn ddiweddar iawn, mae Ysgol Tanygrisiau wedi ymuno'n ffurfiol mewn ffederasiwn gydag Ysgol Bro Cynfal ac Ysgol Edmwnd Prys. Gyda'i gilydd, maent yn creu ffederasiwn Bro Tangelli.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau'r ysgol. Maent yn hyderus bod yr ysgol yn ymateb yn brydlon i unrhyw bryder sydd ganddynt. At ei gilydd, nid yw'r disgyblion yn cael digon o gyfleoedd pwrpasol i ddatblygu eu medrau arwain drwy gyfrannu eu syniadau at eu dysgu, a bywyd a gwaith ehangach yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais a meddylgar, maent yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch at eu cyfoedion ac ymwelwyr. Mae gan bron bob aelod o staff berthynas weithio agos ac effeithiol â'r disgyblion. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o'u anghenion, ac yn gyffredinol, maent yn darparu gweithgareddau pwrpasol iddynt. Er hyn, nid yw'r athrawon ym mlynyddoedd uwch yr ysgol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ysgrifennu estynedig a rhifedd ar draws y meysydd dysgu yn ddigon bwriadus.

Lle mae'r addysgu ar ei orau, mae athrawon ar draws y ffederasiwn yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio ardaloedd ysgogol a diddorol sy'n diwallu anghenion y disgyblion yn briodol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar frwdfrydedd a chyfranogiad y disgyblion ieuengaf ac yn eu cefnogi'n gyson i wneud cynnydd da yn eu medrau. Er hyn, nid yw athrawon y disgyblion hynaf yn cydweithio'n ddigon pwrpasol er mwyn rhannu arferion addysgu effeithiol. O ganlyniad, mae ansawdd yr addysgu yn anghyson ac mae tueddiad i'r athrawon or-gyfarwyddo'r dysgu sy'n cyfyngu ar allu lleiafrif o'r disgyblion hynaf i ddatblygu eu medrau, gan gynnwys eu medrau dysgu annibynnol.

Ar hyn o bryd, mae pennaeth Ysgol Tanygrisiau yn gweithredu fel pennaeth mewn gofal y ffederasiwn. Mae'n cael ei gefnogi'n frwd gan staff a llywodraethwyr, a gyda'r rheini a'r disgyblion, maent wedi cydweithio i greu gweledigaeth bwrpasol ar gyfer y ffederasiwn newydd.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi adnabod yr angen i werthuso'r ddarpariaeth a safonau'r disgyblion. Er hyn, nid yw prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant cyfredol yr ysgol wedi adnabod gwendidau pwysig yn y ddarpariaeth. Mae hyn yn arafu cynnydd disgyblion dros amser. O ganlyniad, mae llawer o argymhellion o'r arolygiadau blaenorol yn parhau i fod yn faterion pwysig i'w gwella.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod prosesau hunanwella'r ysgol yn gwerthuso deilliannau'r disgyblion yn drylwyr er mwyn blaenoriaethu meysydd gwella penodol o'r ddarpariaeth i godi safonau

A2 Sicrhau cysondeb mewn dulliau addysgu effeithiol er mwyn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn unol â'u hoed a'u cam datblygu

A3 Darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ac ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm

A4 Darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau arwain er mwyn iddynt gyfrannu'n rhagweithiol i fywyd a gwaith yr ysgol, a gwella eu hagweddau at ddysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob pedwar i chwe mis, fel arfer.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau cyfathrebu, rhif a chymdeithasol da. Mae eu medrau siarad Cymraeg yn gadarn. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae mwyafrif o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion ychwanegol a disgyblion o gefndiroedd all gael eu heffeithio gan dlodi, yn gwneud cynnydd priodol mewn llawer o'u medrau.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn gwrando'n dda ac yn cyfrannu'n frwdfrydig at drafodaethau dosbarth. Maent yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith gan ddefnyddio geirfa bwrpasol, er enghraifft wrth esbonio sut i fwydo a gofalu am anifeiliaid y fferm. Wrth symud drwy'r ysgol. mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ar y medrau hyn yn briodol. Yn yr achosion gorau, maent yn dilyn rheolau, yn gwrando'n astud ar gyfraniadau cyfoedion, gan ddefnyddio geirfa gynhenid yr ardal wrth sgwrsio â'i gilydd. Fodd bynnag, yn yr achosion lle nad yw'r addysgu cystal, mae tueddiad i leiafrif y disgyblion fod yn aflonydd wrth ddysgu. Nid yw'r disgyblion hyn yn gwrando'n briodol ar gyfarwyddiadau oedolion sy'n cyfyngu ar eu gallu i ddeall yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt mewn gweithgareddau dysgu. Yn ogystal, ychydig o'r disgyblion hynaf yn unig sy'n cyfathrebu'n naturiol yn y Gymraeg wrth drafod a sgwsrio gyda'u cyfoedion.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol yn y ddwy iaith. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dangos brwdfrydedd amlwg tuag at lyfrau. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn adnabod geiriau cyfarwydd yn y llyfrau maent yn eu darllen ac yn defnyddio dulliau ffonolegol yn hyderus wrth adeiladu geiriau anghyfarwydd. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ystod o destunau ffeithiol a ffuglen gyda rhuglder, er enghraifft wrth ddarllen rysáit er mwyn creu bwydlen iachus. Maent yn amrywio goslef eu llais yn effeithiol i greu effaith wrth ddarllen ar goedd.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn datblygu eu medrau marcio cynnar yn effeithiol gan

ddefnyddio ystod o ddeunyddiau gan gynnwys paent a sialc. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ffurfio eu llythrennau'n gywir wrth adeiladu geiriau a brawddegau syml â chywirdeb cynyddol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd atalnodi, gan gynnwys y defnydd o brif lythrennau ac atalnod llawn. Wrth symud drwy'r ysgol, mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn ysgrifennu'n bwrpasol i gofnodi'r hyn maent wedi ei ddysgu o fewn eu tasgau dysgu penodol. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o wahanol dechnegau ysgrifennu, gan gynnwys y defnydd o ddyfynodau siarad ac ebychnod. Er hyn, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym mlynyddoedd uwch yr ysgol yn datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig yn ddigon effeithiol. Mae gor-ddefnydd athrawon o daflenni parod yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i wneud penderfyniadau am y modd maent am gyflawni a chyflwyno eu gwaith.

Mae medrau mathemateg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dysgu'n hyderus wrth arbrofi gyda rhifau, er enghraifft wrth gyfrifo cost nwyddau a'r newid sydd ei angen yn siop fferm y dosbarth. Erbyn Blwyddyn 2, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o briodweddau siapiau 2D a gwerth arian hyd at £5. Mae gan lawer o'r disgyblion hynaf wybodaeth gadarn am rif, er enghraifft wrth ddarganfod rhifau cysefin ac wrth ddefnyddio'r 4 weithred i luosi a rhannu degolion hyd at 1000. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o briodweddau siapiau 3D ac maent yn defnyddio offer safonol yn gywir i fesur hyd, cynhwysedd, a mas. Fodd bynnag, nid yw rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau rhifedd yn ddigon effeithiol mewn cyd-destunau amrywiol ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn adeiladu a datblygu eu medrau yn ddigon effeithiol dros amser.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adeiladu eu medrau digidol yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio cyfrineiriau er mwyn mewngofnodi i lwyfannau digidol a chael mynediad at eu gwaith. Maent yn defnyddio ystod o raglenni yn hyderus er mwyn cefnogi eu dysgu, er enghraifft wrth drosleisio animeiddiad o anifeiliaid y fferm. Mae medrau digidol y rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn datblygu'n effeithiol. Maent yn cyflwyno gwybodaeth mewn dull aml-gyfrwng yn fedrus, er enghraifft wrth gynhyrchu fideo i gyflwyno cyfarwyddiadau ar sut i sicrhau hylendid da. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio rhaglenni cyflwyno data, er enghraifft wrth greu graffiau i arddangos gwybodaeth am ddulliau golchi dwylo disgyblion y dosbarth.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn hyderus wrth arbrofi ag amrywiaeth o offer marcio i greu delweddau sy'n cynrychioli'r byd o'u cwmpas. Er enghraifft, maent yn paentio golygfa liwgar o noson tân gwyllt yn fedrus. Cânt gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu'u medrau perfformio gydag offerynnau taro yn yr ardal allanol. Mae'r rhan fwyaf yn adeiladu'n briodol ar eu medrau gan ddangos cywirdeb a chreadigrwydd wrth efelychu arddulliau artistiaid Cymreig, sy'n cynnwys arlunio tirlun trawiadol o fynydd y Moelwyn. Ar frig yr ysgol, maent yn defnyddio'u medrau'n effeithiol i berfformio cân ar gyfer clwstwr yr ysgolion lleol mewn cydweithrediad ag un o sêr byd pop Cymru.

Mae medrau corfforol bron bob disgybl yn datblygu'n gadarn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn ymroi'n frwdfrydig i weithgareddau corfforol, er enghraifft wrth godi a symud offer wrth adeiladu roced. Mae'r disgyblion hynaf yn adeiladu'n llwyddiannus

ar y medrau hyn. Maent yn cyfrannu'n frwdfrydig mewn ystod o weithgareddau corfforol, gan gynnwys gemau buarth a sesiynau ymarfer corff wythnosol.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn y gymuned ddysgu gefnogol a chynhwysol. Maent yn teimlo'n rhydd rhag cam-drin corfforol, emosiynol a geiriol, ac yn cael eu parchu a'u trin yn deg. Maent yn gwybod at bwy i droi petai rywbeth yn eu poeni.

Drwy amrywiol ddulliau gwella lles y disgyblion, mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod staff yn cymryd eu pryderon o ddifri ac yn barod i wrando ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae disgyblion yn elwa o gyfleoedd bwriadus i drafod eu teimladau'n ddyddiol. Ble mae'r arfer ar ei gorau, maent yn defnyddio ardaloedd pwrpasol o fewn y dosbarthiadau i ymdawelu ac i hybu eu hagweddau at eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyd-chwarae'n  dda yn ystod amseroedd egwyl gan wneud defnydd llawn o'r ardaloedd allanol a thir yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at eu medrau cymdeithasol a lles.

Ar y cyfan, mae gan bron bob un o'r disgyblion ieuengaf ddealltwriaeth dda o werthoedd cadarn a threfniadau gwobrwyo'r ysgol. Maent yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau'r oedolion ac yn canolbwyntio'n ddiwyd ar eu gwaith yn ystod gwersi. O ganlyniad, mae eu hymddygiad a'u hagweddau at fywyd a gwaith yr ysgol yn datblygu'n dda.

Wrth weithio ar eu tasgau dysgu, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn gweithio'n effeithiol fel unigolion, mewn parau ac mewn grwpiau bychain. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn cydweithio'n llwyddiannus wrth gynllunio a thrafod sut bydd cyfres o wrthrychau yn cydbwyso yn yr ardal allanol. Mae gan fwyafrif y disgyblion hynaf ddealltwriaeth dda o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt wrth gwblhau eu tasgau dysgu. Maent yn gwrando'n briodol ar oedolion a chyfraniadau eraill ac yn canolbwyntio'n addas wrth ddysgu'n annibynnol ac mewn grwpiau bychain. Er hyn, nid yw lleiafrif y disgyblion yn ymddwyn yn briodol mewn gwersi ac nid ydynt yn arddel agweddau cadarn at eu dysgu bob amser. Maent yn defnyddio'r adborth gan oedolion yn bwrpasol i wella rhai agweddau o'u gwaith, gan gynnwys atalnodi a sillafu.

Mae bron bob disgybl yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd addas a gânt i ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, er enghraifft drwy gyfrannu at gynllunio gweithgareddau ar ddechrau themâu. Maent yn ymfalchïo yn y cyfleoedd priodol a gânt i leisio eu barn am sut y dylid dathlu achlysuron lleol a chenedlaethol. Er hyn, nid yw'r disgyblion yn chwarae rôl ddigon blaengar wrth wneud penderfyniadau am y ddarpariaeth ehangach sy'n cael ei chynnig gan yr ysgol. O ganlyniad, nid yw llawer o'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau arwain yn ddigon bwriadus, sydd yn ei dro yn effeithio'n negyddol ar eu hagweddau at ddysgu, a bywyd a gwaith yr ysgol yn ehangach.

Mae dealltwriaeth bron bob disgybl o fwyta ac yfed yn iach, ac effaith ymarfer corff ar eu hiechyd, yn datblygu'n effeithiol. Maent yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn gwersi addysg gorfforol ac yn gwneud defnydd pwrpasol o'r offer dringo a cydbwyso sydd ar gael iddynt yn yr ardaloedd allanol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o

ddiogelwch ar-lein gan gynnwys  pwysigrwydd peidio â rhannu cyfrineiriau a datgelu gwybodaeth bersonol.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae disgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr wedi cydweithio'n fwriadus i greu gweledigaeth a dylunio cwricwlwm sy'n ymgorffori'r egwyddorion craidd sy'n berthnasol i'w cymuned leol. Mae gallu staff i ddarparu profiadau dysgu ag ehangder cyfoethog ar draws y meysydd dysgu i danio diddordebau'r disgyblion yn datblygu'n briodol. Mae staff yn dechrau cynllunio cwricwlwm sy'n cynnwys gweithgareddau dysgu sy'n adlewyrchu natur ddiwylliannol y gymuned leol a'r byd ehangach. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am hanes a bywyd bobl yn ystod Oes y Cestyll yng ngogledd Cymru. Mae gan athrawon drefniadau pwrpasol i rannu'u syniadau ar draws y meysydd dysgu a phrofiad gydag athrawon ysgolion y dalgylch.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau siarad, darllen a chreadigol yn effeithiol. Darperir cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion ddatblygu eu medrau digidol o oedran cynnar, sy'n cynnwys llunio poster digidol am gyfandir Affrica. Ym mlynyddoedd uwch yr ysgol, mae disgyblion yn cyflwyno a dadansoddi gwybodaeth mewn basdata ac yn cynhyrchu cyflwyniadau amlgyfrwng diddorol, gan gynnwys cyflwyno ffeithiau diddorol am fywyd gwyllt cefnforoedd y byd. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ac ysgrifennu estynedig ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. O ganlyniad, nid yw mwyafrif y disgyblion, yn enwedig y rhai hynaf, yn gwneud y cynnydd disgwyliedig yn unol â'u hoed a'u cam datblygu.

Mae gan y rhan fwyaf o staff berthynas weithio gynhyrchiol â'r disgyblion. Maent yn annog parch a chwrteisi sydd yn cyfrannu'n fwriadus at wireddu weledigaeth ac ethos yr ysgol. Mae staff yn arddel iaith raenus ac yn annog disgyblion i siarad Cymraeg o fewn y sesiynau dysgu ffurfiol. Gan amlaf, mae cymorthyddion yn cefnogi'r dysgu a phrofiadau chwarae'r disgyblion yn bwrpasol, er enghraifft wrth gefnogi unigolion a grwpiau penodol i ddatblygu eu medrau yn yr ardaloedd dysgu. Mae arddangosfeydd yn y dosbarthiadau yn dathlu gwaith y disgyblion yn effeithiol ac yn eu cefnogi â'u dysgu, er enghraifft wrth esbonio dulliau mathemategol a chyflwyno geirfa newydd am y thema.

Mae athrawon yn cynnwys syniadau'r disgyblion yn briodol ar gychwyn themâu. Yn yr arfer orau, mae athrawon y disgyblion ieuengaf yn cynnwys eu hawgrymiadau'n briodol wrth ddarparu ardaloedd dysgu ysgogol ar eu cyfer. Fodd bynnag, nid yw athrawon y disgyblion hynaf yn darparu digon o gyfleoedd cyson iddynt gyfrannu syniadau a gwneud penderfyniadau am eu dysgu yn ystod sesiynau dysgu.

Lle mae'r addysgu ar ei orau, mae athrawon yn darparu cyfleoedd bwriadus i'r disgyblion ieuengaf ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol, yn enwedig wrth ddysgu yn yr ardal allanol. Maent yn holi'r disgyblion yn dreiddgar sy'n dyfnhau eu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r hyn y maent yn ei ddysgu. Fodd bynnag, mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn anghyson. Mae tueddiad i staff y disgyblion hynaf  or-gyfarwyddo'r dysgu. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion bob amser yn cael cyfleoedd pwrpasol i wneud dewisiadau yn ddigon annibynnol am y modd maent eisiau cyflawni a chyflwyno eu gwaith.

Mae adborth llafar staff yn dechrau cefnogi disgyblion i wybod pa mor dda maent yn ei wneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae cyfleoedd bwriadus iddynt feddwl, gwirio a dathlu nodweddion addas o'u gwaith wedi'u gwreiddio gan staff y disgyblion ieuengaf ac yn dechrau datblygu gan staff y disgyblion hynaf.

Mae staff yn defnyddio deilliannau asesiadau yn addas i adnabod cryfderau a meysydd priodol i'r disgyblion eu datblygu. Mae hyn yn arwain at gefnogaeth ychwanegol, lle bo'n briodol. Gan amlaf, mae athrawon yn defnyddio'u hadnabyddiaeth o gynnydd disgyblion wrth ddarparu tasgau dysgu pwrpasol. Er hyn, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn cyfateb i ofynion dysgu pob disgybl yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, mae hyn yn arafu cynnydd  mwyafrif y disgyblion i gyflawni hyd orau eu gallu.

Mae staff yn defnyddio ymwelwyr i'r ysgol ac yn trefnu ymweliadau diddorol sy'n cysylltu'n bwrpasol â'u themâu. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddwysáu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o agweddau penodol o'u dysgu a'u cyfranogiad yn eu gwaith. Er enghraifft, mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn fwriadus wrth gydweithio ag arlunwyr lleol i lunio golygfeydd trawiadol o'r ardal leol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chartrefol lle darperir amgylchedd dysgu diogel ar gyfer yr holl ddisgyblion a staff. Mae staff yn cefnogi anghenion emosiynol, cymdeithasol a lles y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus drwy drawstoriad o weithgareddau pwrpasol. Er enghraifft, mae athrawon yn cynnal sesiynau lles gwerthfawr ar ddyddiau Llun Lles sy'n darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion drafod a mynegi barn am agweddau pwysig bywyd, fel datblygu parch a phwysigrwydd bod yn ffrind da i eraill. O ganlyniad, mae disgyblion yn dysgu gwerthoedd pwysig gan gynnwys empathi, cyfeillgarwch a buddion cydweithio ag eraill yn yr ysgol a thu hwnt.

Mae gan arweinwyr drefniadau cadarn i adnabod disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) o oedran cynnar. Mae staff yn cyflwyno cefnogaeth darllen, sillafu a lles briodol ar gyfer disgyblion ag ADY trwy raglenni cymorth pwrpasol lle mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio'n fwriadus â rhieni i ddatblygu cynlluniau unigol i gefnogi'r disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau cynnar. Mae gan staff gyswllt perthnasol ag ystod eang o asiantaethau allanol ac maent yn derbyn arweiniad pwrpasol ar gyfer cefnogi cynnydd disgyblion ag anghenion ychwanegol. Mae staff yn creu proffiliau un tudalen pwrpasol ar gyfer y disgyblion ADY sy'n cynnwys eu diddordebau, sut i gynorthwyo eu dysgu, a'u targedau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid oes gan yr athrawon ddealltwriaeth ddigon cynhwysfawr o'r cynnydd mae disgyblion yn ei wneud yn eu dysgu wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Mae staff yn darparu cyfleoedd boddhaol i ddisgyblion leisio eu barn am yr hyn yr hoffent ei ddysgu o fewn eu themâu tymhorol. Trwy'r cyngor ysgol, rhoddir cyfleoedd priodol i ddisgyblion gyfrannu at weithgareddau ysgol gyfan, gan gynnwys penderfynu sut i ddathlu achlysuron megis diwrnod Santes Dwynwen. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion leisio eu barn am ddarpariaeth ehangach yr ysgol. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn cyfrannu'n ddigon pwrpasol i

ddatblygu eu rôl arwain. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar agweddau llawer o'r disgyblion hynaf tuag at eu dysgu.

Mae staff yn sicrhau profiadau dysgu pwrpasol i ddisgyblion feithrin dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cynaliadwyedd. Er enghraifft, fel rhan o'u themâu, mae'r disgyblion hynaf yn dwysáu eu dealltwriaeth o lygredd ac effaith sbwriel ar y gymdeithas leol yn fedrus. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i'r disgyblion ddysgu am waith elusennau lleol a chenedlaethol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion gofalgar a chydwybodol.

Mae staff yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn effeithiol. Yn ystod gwasanaethau ysgol gyfan, darperir cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwerthoedd a'u credoau eu hunain a dysgu am bwysigrwydd parchu eraill. Er hyn, nid yw'r ysgol yn darparu cyfleoedd digon pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o gydraddoldeb o fewn cymdeithas amrywiol.

Mae athrawon yn gwahodd ymwelwyr a siaradwyr gwadd i'r ysgol er mwyn cyfoethogi'r dysgu; er enghraifft, mae heddwas lleol wedi cynnal sesiwn cadw'n ddiogel ar-lein gyda'r disgyblion. Yn ogystal, mae'r disgyblion yn elwa o ystod briodol o ymweliadau a phrofiadau addysgol. Er enghraifft, mae athrawon yn trefnu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymweld â phentref diogelwch lle darperir cyfleoedd cyfoethog i ddysgu am bwysigrwydd diogelwch yn y cartref.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol a mynegiannol disgyblion yn effeithiol. Mae'r gweithdy cerdd ddiweddar, lle cafodd disgyblion gyfleoedd i weithio gyda cherddor i greu cân am eu hardal leol, yn enghraifft dda o hyn. Mae staff yn annog disgyblion i gadw'n heini trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon ysgogol. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau corfforol wrth iddynt chwarae gemau a gwneud defnydd da o'r adnoddau buarth yn ystod amseroedd egwyl.

Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae gan y staff ymwybyddiaeth gadarn o brosesau diogelu ac mae arweinwyr yn ymateb yn briodol i unrhyw achosion unigol, gan gydweithio ag asiantaethau eraill yn effeithiol, lle bo'n briodol. Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer sicrhau presenoldeb cyson disgyblion yn gadarn. Mae'r staff yn cadw cofnod o unrhyw absenoldeb ac yn cysylltu â rhieni a'r swyddog presenoldeb o fewn yr awdurdod yn amserol i drafod unrhyw bryderon ynglŷn â phresenoldeb eu plant.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Yn ddiweddar iawn, mae Ysgol Tanygrisiau wedi ymuno'n ffurfiol mewn ffederasiwn gydag Ysgol Bro Cynfal ac Ysgol Edmwnd Prys. Gyda'i gilydd, maent yn creu ffederasiwn Bro Tangelli.

Erbyn hyn, mae pennaeth Ysgol Tanygrisiau yn gweithredu fel pennaeth dros dro y ffederasiwn. Mae'n cael ei gefnogi'n frwd gan benaethiaid cynorthwyol ar safleoedd Ysgol Bro Cynfal ac Ysgol Edmwnd Prys. Gyda'i gilydd, mae'r arweinwyr wedi creu gweledigaeth bwrpasol ar gyfer y ffederasiwn. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfleoedd buddiol i'r disgyblion gydweithio a chydchwarae er mwyn rhannu profiadau

gwerthfawr gyda'i gilydd. Er enghraifft, mae arweinwyr yn awyddus i gyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer lles disgyblion, drwy gynnig cyfleoedd iddynt gystadlu gyda'i gilydd mewn twrnameintiau chwaraeon lleol a chystadlaethau cenedlaethol yr Urdd.

Mae arweinwyr yn cynnig cyfleoedd priodol i staff gydweithio â'i gilydd o fewn ysgolion y ffederasiwn ac ysgolion y dalgylch. Lle mae hyn ar ei orau, mae staff yn rhannu arbenigedd ar y cyd yn gyson, er enghraifft wrth gyfoethogi'r ddarpariaeth i ddisgyblion dysgu sylfaen. Mae hyn yn cynnwys datblygu'r ardaloedd allanol a darparu profiadau ysgogol a diddorol sy'n diwallu anghenion y dysgwyr yn effeithiol. Hyd yn hyn, nid yw arweinwyr wedi trefnu cyfleoedd digon cyson i athrawon y disgyblion hynaf ar draws y ffederasiwn gydweithio'n fwriadus i rannu arferion addysgu a dysgu effeithiol gyda'i gilydd. O ganlyniad, mae ansawdd yr addysgu yn anghyson ac mae tueddiad i'r athrawon or-gyfarwyddo'r dysgu. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf i ddatblygu eu medrau, gan gynnwys eu medrau dysgu annibynnol.

Mae arweinwyr yn cynnig cyfleoedd priodol i staff fynychu hyfforddiant sy'n cysylltu'n bwrpasol â blaenoriaethau gwella'r ysgolion a'u hanghenion dysgu proffesiynol unigol. Er enghraifft, mae athrawon wedi mynychu hyfforddiant gydag ysgolion y dalgylch er mwyn gwella'r ddarpariaeth ddigidol i ddisgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau'r disgyblion wrth iddynt gymhwyso eu medrau digidol mewn amrywiaeth o gyd-destunau o fewn y meysydd dysgu a phrofiad.

Mae arweinwyr wedi dechrau ailstrwythuro cyfrifoldebau'r athrawon o fewn y ffederasiwn fel eu bod yn arwain ar agweddau penodol o'r addysgu a'r cwricwlwm. Nid yw hyn wedi ei wreiddio'n llawn ac nid yw staff wedi cael amser i weithredu'n ddigon effeithiol ar eu rolau newydd. O ganlyniad, mae'n rhy fuan i werthuso effaith eu gwaith ar wella'r ddarpariaeth i godi safonau disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol sydd wedi'i sefydlu'n ddiweddar iawn ar gyfer y tair ysgol, yn gefnogol iawn i'r pennaeth dros dro a staff y ffederasiwn. Mae gan bob aelod o'r corff ddealltwriaeth briodol o'r rôl a'u cyfrifoldebau o fewn yr is-bwyllgorau. Er enghraifft, mae aelodau'r is-banel cyllid yn cyfarfod yn dymhorol i graffu ar gyllideb yr ysgolion. Mae hyn yn cynnwys gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r defnydd o'r grant datblygu disgyblion wrth gyflogi staff i gefnogi disgyblion o fewn eu gweithgareddau dysgu. Mae aelodau'r corff yn cynnal trafodaethau â'r staff a disgyblion, gan holi eu barn am beth yw'r cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r aelodau'n dechrau defnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol wrth gyfrannu eu syniadau at flaenoriaethau gwella'r ffederasiwn newydd. O ganlyniad, mae gan yr aelodau ddealltwriaeth briodol o'r camau nesaf er mwyn datblygu gwaith ysgolion y ffederasiwn i'r dyfodol.

Mae arweinwyr yn adnabod yr angen i hunanwerthuso safonau'r dysgu a'r addysgu yn gynnar o fewn y ffederasiwn newydd. Er hyn, nid yw arweinwyr wedi gweithredu prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn ddigon craff i wella elfennau pwysig o'r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion dros amser. Er enghraifft, nid yw deilliannau'r broses hunanwerthuso wedi adnabod gwendidau pwysig yn ansawdd yr addysgu a safonau'r dysgu, yn enwedig ym mlynyddoedd uwch yr ysgolion. O ganlyniad, nid yw lleiafrif y disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion ychwanegol, yn cyflawni hyd orau o ran eu hoed a'u cam datblygu.

Mae llawer o argymhellion yr arolygiad blaenorol yn parhau i fod yn faterion pwysig i'r ysgol, gan gynnwys gwella medrau rhifedd disgyblion, sicrhau bod tasgau'n herio disgyblion mwy abl, a bod blaenoriaethau o fewn y cynllun gwella yn ymateb yn benodol i anghenion y dysgwyr. O ganlyniad, nid yw arweinwyr wedi sicrhau gwelliannau yn y ddarpariaeth dros amser sydd wedi cyfyngu ar allu'r disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau dros amser.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod diwylliant cryf o ddiogelu yn bodoli ar draws y ffederasiwn. Mae'r llywodraethwyr yn manteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, er enghraifft wrth eu hannog i yfed dŵr a bwyta ffrwyth yn ystod y dydd.

Mae arweinwyr yn meithrin perthnasoedd clòs ac adeiladol gyda'r rhieni a'r gymuned leol. Er enghraifft, maent yn holi barn rhieni am agweddau pwysig o'r ddarpariaeth, gan gynnwys cyfrannu eu syniadau at weledigaeth newydd y ffederasiwn.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol/aelodau’r pwyllgor rheoli’ trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/06/2024